**Mark Drakeford AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-L-0875-18

Llŷr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

20 Rhagfyr 2018

Annwyl Llŷr,

Rwyf yn ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr 7 Rhagfyr ac argymhelliad y Pwyllgor Cyllid ynghylch ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â Biliau Aelodau'r Cynulliad a wneir yn adroddiad y Pwyllgor ynghylch goblygiadau ariannol Bil Awtistiaeth (Cymru).

Yn unol â chanllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Aelod Cyfrifol biau'r cyfrifoldeb dros baratoi dogfennau ategol ar gyfer Bil Aelod Cynulliad. Mae hyn yn cynnwys datblygu'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA).

Lle bo Aelod Cyfrifol yn gofyn am ddata gan Lywodraeth Cymru i ategu datblygu RIA, bydd Llywodraeth Cymru'n darparu'r data hwnnw ar yr amod ei fod yn cael ei ddal yn ganolog, ei fod ar gael yn hwylus ac nad oes unrhyw rwystrau i rannu'r data (er enghraifft diogelu data).

Nid yw'n rhan o rôl swyddogion Llywodraeth Cymru i fynd ati i gasglu data ychwanegol i gydategu'r wybodaeth y mae'n ei dal na chynnal dadansoddiad pwrpasol mewn ymateb i gais gan yr Aelod Cyfrifol.

O ran amgylchiadau penodol y costau sy'n gysylltiedig â Bil Awtistiaeth (Cymru), nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – bellach y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, ac mewn llythyr olynol, nid oedd yr wybodaeth y mae ei hangen yn cael ei dal yn ganolog gan Lywodraeth Cymru.

Byddai asesu'r costau presennol sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau ar gyfer yr anhwylder sbectrwm awtistiaeth a gynigir yn y Bil yn gofyn am ymgysylltu â byrddau Iechyd Prifysgol; casglu data manwl o'u systemau gwybodaeth reoli a dadansoddi'r data hwnnw

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ymhellach. Cyfrifoldeb yr Aelod sy'n Gyfrifol am y Bil yw gwneud neu comisiynu'r gwaith hwn.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol, Y Gweinidog Iechyd a'r Llywydd.

Yn gywir

Mark

**MARK DRAKEFORD**